

# Sgript Stori'r Geni

**Sgript hwyliog a gafaelgar yn seiliedig ar stori'r Nadolig yn y Beibl.**

Lift The LID

*Pecyn Nadolig*

Gweithgaredd Dosbarth

# Sgript Stori'r Geni

## Cymeriadau

Storïwr
Angel
Mair
Joseff
Bugail
Gŵr doeth

*(Mae pum sgarff pen wedi'u cynnwys ond fe all plant eraill ymuno fel bugeiliaid, gwŷr doeth, neu angylion ychwanegol)*

## Golygfeydd

Golygfa 1: Angel yn dod â neges gan Dduw
Golygfa 2: Angel yn siarad gyda Joseff
Golygfa 3: Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem
Golygfa 4: Genedigaeth Iesu ym Methlehem
Golygfa 5: Angel yn ymweld â'r bugeiliaid
Golygfa 6: Y bugail yn mynd i weld Iesu
Golygfa 7: Y gŵr doeth yn chwilio am Iesu
Golygfa 8: Y gŵr doeth yn rhoi anrheg i Iesu
Golygfa 9: Mair a Joseff yn ffoi i'r Aifft

(Mae cyfarwyddiadau llwyfan i'w gweld mewn **porffor**)

# Golygfa 1: Angel yn dod â neges gan Dduw

*(Mae Mair yn eistedd yn ei chegin yn Nasareth.)*

Storïwr — Amser maith yn ôl, dros 2000 o flynyddoedd, roedd yna ferch ifanc o'r enw Mair. Penderfynodd Duw mai hi oedd y person perffaith ar gyfer job hynod o bwysig. Felly anfonodd ei angel, Gabriel, i ddweud wrthi.

*(Angel yn ymddangos i Mair.)*

*(Mair yn edrych i fyny mewn syndod.)*

Angel — Paid bod ag ofn Mair. Mae gen i neges bwysig i ti gan Dduw. Mae e'n anfon rhywun sbesial i'r byd. Mae e'n anfon rhywun fydd yn Frenin y Brenhinoedd. Mae Duw yn anfon ei fab ac mae e eisiau i ti fod yn fam iddo.

Mair — Go iawn? Fi? Mae hyn yn anhygoel! Mi wna i drystio Duw a gwneud beth bynnag mae e eisiau i mi wneud.

*(Angel yn gadael yr olygfa.)*

# Golygfa 2: Angel yn siarad gyda Joseff

(Mae Joseff yn cysgu yn ei dŷ.)

| | |
|---|---|
| Storïwr | Roedd Mair yn gyffrous ac yn ofnus ar yr un pryd. Roedd hi hefyd yn poeni ychydig beth fyddai Joseff (y dyn roedd hi'n mynd i'w briodi) yn ei ddweud. Ond anfonodd Duw angel at Joseff i esbonio popeth iddo mewn breuddwyd. |
| | (Angel yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd.) |
| Angel | Paid bod ag ofn Joseff! Mae gen i neges bwysig i ti gan Dduw. Mae e'n anfon rhywun sbesial iawn i'r byd. Bydd yn rhywun fydd yn achub pobl o'r holl bethau drwg maen nhw wedi'i wneud. Mae Duw eisiau i ti briodi Mair ac ar ôl i'r babi gyrraedd rydych i roi'r enw Iesu iddo, a ti fydd ei dad ar y ddaear. |
| | (Joseff yn deffro yn edrych yn ddryslyd.) |
| Joseff | Mae yna angel wedi ymddangos i mi mewn breuddwyd! Dw i ddim yn deall yn iawn sut mae hyn yn mynd i ddigwydd, ond mi wna i drystio Duw a gwneud beth bynnag mae e eisiau i mi wneud. |

# Golygfa 3: Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem

*(Mae Mair a Joseff yn cerdded ar y ffordd i Fethlehem.)*

| | |
|---|---|
| Storïwr | Roedd yr Ymerawdwr Cesar Awgwstws eisiau gwybod faint o bobl oedd yn byw yn yr Ymerodraeth Rufeinig. Dwedwyd wrth bawb i fynd yn ôl i'w tref enedigol, er mwyn eu cyfri. Teithiodd Mair a Joseff o Nasareth i Fethlehem. |
| Mair | O Joseff, fydda i mor falch pan gyrhaeddwn ni Fethlehem. |
| Joseff | Dŷn ni bron yna Mair! Dw i'n gwybod ei bod hi wedi bod yn daith hir a blinedig, ond ddown ni o hyd i rywle i aros, a gei di orffwys. |
| Storïwr | Ond roedd Bethlehem mor llawn o bobl doedd yna ddim lle yn y llety, felly roedd rhaid i Mair a Joseff gysgu mewn stabl. |

# Golygfa 4: Genedigaeth Iesu ym Methlehem

*(Mae Mair a Joseff yn eistedd yn yr stabl.)*

| | |
|---|---|
| Mair | Joseff, mae hi'n amser! Bydd y babi yma yn fuan! |
| Storïwr | Y noson honno cafodd y babi ei eni. |
| | *(Mair yn codi y babi.)* |
| Joseff | Wnawn ni ei alw'n Iesu, achos dyna ddwedodd yr angel wrthon ni'i wneud. Dw i'n meddwl fod e'n fabi sbesial iawn. |
| | *(Mair yn rhoi cwtsh i'r babi a'i roi i orwedd yn y cafn bwydo anifeiliaid.)* |
| Storïwr | Lapiodd Mair Iesu mewn cadachau geni a'i osod yn y cafn bwydo anifeiliaid. Roedd Mair a Joseff yn llawn rhyfeddu at beth roedd Duw wedi'i wneud. |

# Golygfa 5: Angel yn ymweld â'r bugail

*(Mae'r bugail yn eistedd ar ochr y bryn yn gofalu am ei ddefaid.)*

| | |
|---|---|
| Storïwr: | Y noson honno, roedd bugail yn gofalu am ei ddefaid yn y caeau, ac yn sydyn roedd golau llachar yn disgleirio. Angel oedd yna! Roedd y bugail wedi dychryn am ei fywyd. |
| Angel | Paid bod ag ofn! Mae gen i newyddion da i ti. Mae babi wedi'i eni ym Methlehem. Y Meseia Iesu ydy e, yr Arglwydd, Achubwr y byd. Byddi'n dod o hyd iddo wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. |
| Storïwr | Daeth mwy o angylion i'r golwg, a chanu, "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw." Pan aeth yr angylion i ffwrdd roedd y bugail yn meddwl beth ddylai'i wneud. |
| Bugail | Dw i'n gwybod beth wna i. Dw i'n mynd i weld y babi  sbesial yma. Dwedodd yr angel y byddwn i'n dod o hyd iddo ym Methlehem yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. |

*(Cychwynnodd y bugail ar ei daith i chwilio am y stabl.)*

# Golygfa 6: Y bugail yn mynd i weld Iesu

*(Mae'r bugail yn cerdded i mewn i'r stabl.)*

Storïwr: Felly, brysiodd y bugail a dod o hyd i Mair, Joseff a Iesu yn y stabl.

*(Aeth y bugail ar ei liniau a dechrau siarad gyda Mair a Joseff.)*

Bugail Angel ddwedodd wrtho i am ddod yma. Dwedodd fod y Meseia wedi'i eni, yr Arglwydd. Ga' i weld e?

*(Mae'r bugail yn edrych i lawr ar Iesu.)*

Bugail Mae e'n anhygoel!

Storïwr Pan adawodd y bugail roedd e mor gyffrous aeth ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi'i weld.

*(Mae'r bugail yn gadael y stabl ac yn troi i siarad gyda'r gynulleidfa.)*

Bugail Mae gen i newyddion da i bawb! Mae Achubwr wedi'i eni sef y Meseia, yr Arglwydd. Dw i wedi'i weld â'm llygaid fy hun!

# Golygfa 7: Y gŵr doeth yn chwilio am Iesu

(Mae'r gŵr doeth yn cerdded i mewn i balas Herod.)

| | |
|---|---|
| Storïwr | Ymhell bell i ffwrdd o Fethlehem mewn gwlad yn y dwyrain, gwelodd gŵr doeth seren ddisglair yn yr awyr, |
| | (Mae'r gŵr doeth yn pwyntio i'r awyr.) |
| Gŵr doeth | Mae'r seren yn dweud bod brenin wedi'i eni. Dw i'n meddwl y dylwn i fynd i chwilio amdano. |
| Storïwr | Aeth y gŵr doeth yn ei flaen i chwilio am y brenin newydd. Dilynodd y seren yr holl ffordd i Jerwsalem, ble stopiodd a mynd i balas y Brenin Herod, i weld os oedd y brenin newydd yno. |
| | (Mae'r gŵr doeth yn cnocio ar ddrws y palas.) |
| Gŵr doeth | Dw i wedi dod i weld y brenin newydd, brenin yr Iddewon. Gwelais ei seren a'i dilyn yr holl ffordd yma. |
| Storïwr | Doedd Herod ddim yn hapus pan glywodd fod brenin arall. Gofynnodd i'w gynghorwyr beth oedden nhw'n ei wybod am hyn. Dwedon nhw wrth y Brenin Herod am broffwydoliaeth gafodd ei sgwennu tua 700 mlynedd ynghynt gan broffwyd o'r enw Micha. Byddai brenin yn cael ei eni ym Methlehem a byddai'n arwain pobl Dduw. Dwedodd Herod wrth y gŵr doeth i fynd i chwilio am y brenin ac yna dod yn ôl i ddweud wrtho ble roedd e, er mwyn iddo yntau gael mynd i dalu teyrnged iddo. |
| | (Mae'r gŵr doeth yn gadael am Fethlehem.) |

# Golygfa 8: Y gŵr doeth yn rhoi anrheg i Iesu

*(Mae'r gŵr doeth yn cerdded i mewn i'r stabl
ac yn penlinio wrth y cafn bwydo anifeiliaid.)*

Storïwr — Daeth y seren i'r golwg yn yr awyr eto a dilynodd y gŵr doeth hi i ble roedd Iesu yn aros.
Pan welodd y brenin newydd aeth ar ei liniau o'i flaen i'w addoli.

Gŵr doeth — Dw i wedi teithio'n bell iawn a dilyn y seren i weld y brenin newydd.

*(Mae'r gŵr doeth yn gosod anrhegion
wrth y cafn bwydo anifeiliaid.)*

Gŵr doeth — Dw i wedi dod ag aur, thus a myrr iddo.

Storïwr — Roedd Mair wedi'i syfrdanu gan yr anrhegion anghyffredin roddodd y gŵr doeth i Iesu. Ar ôl iddo weld Iesu dwedodd angel wrth y gŵr doeth i beidio mynd yn ôl at Herod am ei fod yn bwriadu ei ladd. Aeth y gŵr doeth gartre ar hyd ffordd arall.

*(Mae'r gŵr doeth yn gadael y stabl ac yn mynd adre.)*

# Golygfa 9: Mair a Joseff yn ffoi i'r Aifft

*(Mae Mair a Joseff yn cysgu yn y stabl.)*

| | |
|---|---|
| Storïwr | Yn fuan ar ôl i'r gŵr doeth adael, gwelodd Joseff angel mewn breuddwyd. |
| Angel | Cymer Mair a Iesu a dos i'r Aifft achos mae'r Brenin Herod eisiau lladd Iesu. |
| | *(Mae Joseff yn deffro Mair.)* |
| Mair | Beth sy'n bod Joseff? |
| Joseff | Mair, Mair, brysia, mae'n rhaid i ni fynd. Daeth angel ata i mewn breuddwyd a dweud fod y Brenin Herod yn chwilio am Iesu. Mae e eisiau ei ladd. |
| | *(Mae Mair a Joseff yn cymryd Iesu ac yn gadael y stabl.)* |
| Storïwr | Dyma Mair, Joseff a Iesu yn ffoi i'r Aifft, ac yn aros yno nes ei bod hi'n ddiogel iddyn nhw fynd yn ôl adre i Nasareth. Ar ôl i Iesu dyfu i fyny gwnaeth lawer o wyrthiau rhyfeddol a dweud wrth bobl gymaint roedd Duw yn eu caru nhw. Daeth popeth ddwedodd y proffwydi amdano yn wir, gan gynnwys hanes ei farwolaeth a'i atgyfodiad, sy'n cael ei gofio gan Gristnogion bob Pasg. |

Lift The LID

Mae adnoddau Lift the Lid yn cefnogi dysgu am Gristnogaeth yn ein hysgolion. Am fwy o wybodaeth ac adnoddau ewch i **www.liftthelid.org.uk**